

Terfynol 5 Tachwedd 2013

Cytundeb Gweithredu'r Contract Cenedlaethol ar gyfer holl Staff AB yng Nghymru

1. Partïon

Gwneir y cytundeb hwn rhwng:

(1) ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Parc Busnes Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB.

(2) Y Cyd-undebau Llafur, Uned 33, Y Ganolfan Fenter, Ton-du, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9BS

2. Cefndir

2.1 Mae ColegauCymru yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli pob coleg addysg bellach (AB) a 2 sefydliad AB yng Nghymru. Y colegau¹ sydd wedi eu cwmpasu gan y cytundeb hwn yw

- Coleg Pen-y-bont
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Ceredigion
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Gwent
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Y Coleg Merthyr Tudful
- Grŵp NPTC
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Cymunedol YMCA²

2.2 Mae'r Cyd-undebau Llafur yn fforwm o undebau llafur annibynnol a gydnabyddir gan Golegau Cymru mewn Cytundeb Cydnabod Cenedlaethol. Yr undebau llafur a gydnabyddir yw:

- Cymdeithas y Rheolwyr mewn Addysg (AMiE)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Bwrdeisiol, Bwylerwyr a Chrefftwyr Perthynol (GMB)
- UNSAIN
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- NASUWT

¹ Yn y ddogfen hon, mae'r gair 'coleg' yn cwmpasu'r colegau AB a'r sefydliadau AB sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 2.1. Roedd enwau'r colegau yn y rhestr hon yn gywir ar 10 Ionawr 2014. Gwnaed y cywiriadau i'r rhestr gan John Graystone, Prif Weithredwr ColegauCymru.

² Nid yw WEA Cymru (a ddaeth i fodolaeth ar 10 Ionawr 2014) wedi ei gynnwys ond efallai y bydd yn dymuno gweithredu'r contract cyffredin yn nes ymlaen.

Terfynol 5 Tachwedd 2013

□ UNITE

- 2.3 Diben y cytundeb hwn yw darparu fframwaith i Gyrrff Llywodraethu Colegau, Penaethiaid Colegau a swyddogion lleyg undebau llafur lleol i sicrhau y caiff y Contract Cenedlaethol (y contract cyflogaeth cenedlaethol) ei weithredu'n gyson yn y Colegau AB a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, yng Nghymru wrth ymgysylltu a/neu unioni cyflogaeth yr holl gyflogeion, boed yn amser llawn, yn ffracsïynol neu'n rhan amser a delir fesul awr.

3. Egwyddorion a Sail Resymegol

- 3.1 Datblygwyd telerau'r cytundeb hwn gan roi ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:-

3.1.1 yr angen i sicrhau gweithrediad llawn y Contract Cenedlaethol i'r holl gyflogeion ym mhob Coleg AB yng Nghymru o fewn amserlen resymol;

3.1.2 yr angen i sicrhau bod gan y colegau hynny sy'n wynebu costau ychwanegol mewn perthynas â gweithredu'r Contract Cenedlaethol amserlen resymol ar gyfer cynllunio busnes er mwyn lliniaru'r effaith ariannol a diogelu'r sefydliad;

3.1.3 yr angen i gynnig trefniadau diogelu i'r cyflogeion hynny y mae eu telerau ac amodau presennol yn fwy ffafriol na'r Contract Cenedlaethol,

3.1.4 yr angen i roi hyblygrwydd i golegau weithredu'r Contract Cenedlaethol ar ddyddiad sydd fwyaf priodol i'w hanghenion busnes ac sydd yn arwain at berthynas gadarnhaol â'r cyflogeion.

4. Y Contract Cenedlaethol

- 4.1 Bydd y 'Contract Cenedlaethol' yn golygu'r contract cyflogaeth a ddefnyddir wrth gyflogi pob cyflogai amser llawn, ffracsïynol neu ran amser a delir fesul awr.
- 4.2 Mae copi o'r Contract Cenedlaethol fel sydd wedi ei gytuno ar ddyddiad y Cytundeb hwn wedi ei atodi yn Atodiad [].

5. Telerau'r Contract Cenedlaethol

- 5.1 Bydd unrhyw newidiadau a phob newid i'r Contract Cenedlaethol yn cael eu cytuno rhwng Partïon y Cytundeb hwn, drwy'r strwythurau sydd wedi'u gosod yn y Cytundeb Cydnabod a Gweithdrefnau Cenedlaethol rhwng Colegau Cymru a'r undebau llafur cydnabyddedig, Pwyllgor Negodi Addysg Bellach Cymru [WNCFE].
- 5.2 Mae'r dulliau ar gyfer cytuno ar newidiadau (fel a nodir yng nghymal 5.1 uchod) wedi eu nodi yn y Cytundeb Cydnabod Cenedlaethol a nodwyd yn flaenorol.

6. Cydgytundebau

- 6.1 Mae Atodiad [1] y Contract Cenedlaethol yn cyfeirio at 'gydgytundebau' ac yn rhestru'r cydgytundebau a fydd yn rhan o'r Contract Cenedlaethol.

Terfynol 5 Tachwedd 2013

- 6.2 Caiff unrhyw gytundebau i'r dyfodol eu hystyried gan WNCFE os ydynt yn cyrraedd unrhyw rai o'r meini prawf canlynol:-
- 6.2.1 Pan fo'n statudol ofynnol i ddarparu cyflog a buddion, er enghraifft mewn perthynas ag Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu, Gweithio Hyblyg, Absenoldeb Rhiant neu Absenoldeb Gofalwr;
- 6.2.2 Pan fo'r gweithdrefnau yn caniatáu i'r cyflogai gael swyddog undeb llafur yn bresennol ac i'w gynrychioli/chynrychioli;
- 6.2.3 Pan fo'r partïon yn cytuno i gael cydgytundeb yn ei le.
- 6.3 Ar ôl cytuno ar delerau cydgytundeb newydd, bydd WNCFE hefyd yn cytuno ar y dyddiad y bydd y Coleg perthnasol sy'n cyflogi yn ymgorffori'r cydgytundeb yn benodol yn y Contract Cenedlaethol (yn unol â chymal 37 y Contract Cenedlaethol).
- 6.4 Hyd nes i'r trafodaethau y cyfeirir atynt yng nghymal 6.3 gael eu cwblhau, bydd telerau unrhyw gydgytundebau lleol presennol yn parhau i fod yn berthnasol.
- 6.5 Mae coleg yn cadw'r disgresiwn i ychwanegu cymalau pellach mewn cytundeb â'u hundebau llafur lleol, i'w Gynllun Dyrannu Llwyth Gwaith. Er hynny, ni all Coleg newid unrhyw un o'r cymalau a gytunwyd na/neu ychwanegu cymal sy'n newid ystyr a/neu effaith y cymalau a gytunwyd ar lwyth gwaith.
- 6.6 Bydd unrhyw gydgytundebau i'r dyfodol a gytunir yn unol â Chymal 6 y cytundeb hwn yn berthnasol i bob cyflogai.
- 6.7 Mewn achos o golegau wedi uno, mater i'r colegau sydd yn/wedi uno, mewn ymgynghoriad â'u Cyd-undebau Llafur ar lefel leol, fydd penderfynu pa bolisi a/neu weithdrefn waddol a fydd yn berthnasol hyd nes i Gydgytundeb Cenedlaethol ddod i rym.

7. Mabwysiadu'r Contract Cenedlaethol

- 7.1 O'r 1^{af} Ionawr 2014, gellir rhoi'r Contract Cenedlaethol i bob cyflogai newydd sydd yn ymgeisio ac yn llwyddo i dderbyn swydd newydd mewn coleg.
- 7.2 O'r 1^{af} Ionawr 2014, gall pob coleg weithredu'r Contract Cenedlaethol i bob cyflogai.
- 7.3 O'r 1^{af} Ionawr 2014, gall coleg unigol weithredu'r Contract Cenedlaethol ar gyfer grwpiau penodol o gyflogeion ar ddyddiadau gwahanol. Y grwpiau penodol o gyflogeion yw: - Rheolwyr, Darlithwyr a staff Cymorth Busnes.
- 7.4 Gall coleg ddewis ar ba ddyddiad i weithredu'r Contract Cenedlaethol, cyhyd â bod y Contract Cenedlaethol yn weithredol i'r holl staff erbyn 1^{af} Medi 2016.
- 7.5 O'r 1^{af} Ionawr 2014, gall cyflogai sy'n gwneud cais i amrywio ei drefniadau/threfniadau gweithio presennol drosglwyddo i'r Contract Cenedlaethol o ddyddiad yr amrywiad.
- 7.6 Bydd y colegau yn rhoi hysbysiad rhesymol i'w staff priodol o'r dyddiad gweithredu a fwriedir, gan ganiatáu i gyflogeion unigol nodi p'un a ydynt yn dymuno gweithredu eu hawl i gadw eu contract cyflogaeth presennol yn unol â chymal 8.1 isod.

Terfynol 5 Tachwedd 2013

8. Trefniadau Diogelu

- 8.1 Gall cyflogai unigol ddewis parhau ar ei gontract/chontract cyflogaeth presennol hyd at 31^{ain} Awst 2016 ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw.
- 8.2 Wrth drosglwyddo i'r Contract Cenedlaethol, bydd cyflogai yn cydnabod yr holl delerau ac amodau ynddo.

9. Eglurhad

- 9.1 Bydd swyddogion ColegauCymru, sef Prif Weithredwr ColegauCymru a Chadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth, mewn cydweithrediad â Swyddogion y Cyd-undebau Llafur, sef Cadeirydd ac Ysgrifennydd Grŵp y Cyd-undebau Llafur, yn ymdrin ag unrhyw geisiadau gan Golegau/sefydliadau am eglurhad ynglŷn â'r Cytundeb hwn.
- 9.2 Gwneir pob ymdrech i ymateb i unrhyw gais am eglurhad o fewn 14 diwrnod o dderbyn y cais hwnnw.
- 9.3 Os na fydd y Swyddogion sy'n ymdrin â'r ceisiadau yn gallu rhoi'r eglurhad sydd ei angen, ymdrinnir â'r mater gan y gweithdrefnau anghydfod oddi mewn i Golegau unigol.

Llofnodwyd ar ran ColegauCymru
gan John Graystone

Llofnodwyd ar ran y Cyd-undebau Llafur
gan Margaret Phelan

Dyddiad:
